**Alun Davies AC/AM**
**Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes**
**Minister for Lifelong Learning and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MAP/ARD/6906/16

Lynne Neagle AC
Cadeirydd y Pwyllgor
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

9 Tachwedd 2016

Annwyl Lynne,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 2 Tachwedd yn gofyn am eglurhad o'r trefniadau ariannu ar gyfer Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol (CWVYS).

Yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 12 Hydref, esboniais y byddaf yn mynd i gyfarfod y Grŵp Cyfeirio Gweinidogol ar gyfer Gwaith Ieuenctid ym mis Rhagfyr ac y byddaf yn manteisio ar y cyfle hwnnw i drafod gwahanol fodelau ar gyfer cyflawni gwaith ieuenctid. Mae hyn yn dilyn gwaith a gomisiynwyd gan fy rhagflaenydd, Julie James, ar ôl lansio Siarter Gwaith Ieuenctid Cymru. Dyna yw fy mwriad o hyd.

Rwyf am symud at ddull mwy agored a hyblyg o ddarparu cymorth i'r sector gwaith ieuenctid. Fel rhan o'r weledigaeth hon, mae angen i ni ailfeddwl y modd rydym yn ariannu'r cymorth ar gyfer y sector gwirfoddol. Credaf mai dyma'r ffordd gywir ymlaen.

Mae fy swyddogion, a Gweinidogion blaenorol, wedi ymgysylltu a chynnal deialog rheolaidd â CWVYS a'r Grŵp Cyfeirio ar gyfer Gwaith Ieuenctid. Cyfarfu swyddogion â Phrif Weithredwr a Chadeirydd CWVYS ym mis Rhagfyr 2015, a chafwyd cyfarfod pellach anffurfiol rhwng y swyddogion a'r Cadeirydd yn ystod y cyfnod pan oedd yr amcanion grant yn cael eu negodi. Ni thrafodwyd y trefniadau ariannu presennol sydd gennym â CWVYS, na threfniadau'r dyfodol, â'r Grŵp Cyfeirio ar gyfer Gwaith Ieuenctid na'r sector ehangach; ni fyddai hyn wedi bod yn briodol.

Mae arfer gorau yn golygu ei bod yn ofynnol i ni werthuso rhaglenni ariannu bob 3-5 mlynedd o leiaf. Mae ein dogfen Trydydd Sector yn nodi bod ymrwymiad arnom i roi'r cyfnod cyllid mwyaf pan fo'n bosibl, i leihau unrhyw gostau gweinyddu a gwella effeithlonrwydd y cyllid.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Alun.Davies@llyw.cymru
Correspondence.Alun.Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Nodwyd yn ein Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cenedlaethol (2014-18) y byddai arian grant i CWVYS ar gael am ddwy flynedd o leiaf, ac yna y byddai'n cael ei adolygu yn unol â'r broses o ddatblygu cymorth i'r sector gwirfoddol ehangach. Mewn gwirionedd, mae'r arian wedi bod ar gael am dair blynedd. Felly, mae'n bryd i ni adolygu ac ystyried y ffordd fwyaf effeithiol o gyflawni ein hamcanion yn effeithlon ac yn gost effeithiol.

Mae'r dirwedd, o ran nifer ac amrywiaeth y rhanddeiliaid ac o ran ffrydiau cyllido ar draws y sector gwaith ieuenctid gwirfoddol yng Nghymru, yn gymhleth. Fy nymuniad yw symud at ddull symlach a mwy agored a hyblyg ar gyfer darparu cymorth priodol, cynrychiadol ac effeithiol i'r sector. Fel rhan o'r weledigaeth hon, mae angen i ni ailfeddwl y modd yr ydym yn ariannu'r cymorth hwn.

Fodd bynnag, yn sgil y sylwadau sydd wedi dod i law, rwy'n fodlon adolygu fy null gweithio ar gyfer hyn.

Felly, rwyf wedi gofyn i'm swyddogion wneud y newidiadau angenrheidiol i'r model cyllido er mwyn caniatáu digon o amser ar gyfer trafodaethau manylach ar gynllun gweithredu i helpu CWVYS i ddod yn hunan-gynhaliol fel sefydliad. Byddant hefyd yn dechrau mynd ati, mewn partneriaeth ac mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid perthnasol, i ystyried yr opsiynau ar gyfer darparu cymorth yn y dyfodol.

Heddiw, rwyf wedi ysgrifennu at CWVYS yn amlinellu fy null gweithio newydd. Rwy'n pwysleisio eto fy mod yn cefnogi'n llwyr rôl werthfawr gwaith ieuenctid yng Nghymru a'r gwaith hollbwysig y mae sefydliadau'r sector gwirfoddol yn ei wneud, ac edrychaf ymlaen at gwrdd â'r Grŵp Cyfeirio ar gyfer Gwaith Ieuenctid ym mis Rhagfyr. Yn y cyfamser, rwy'n bwriadu cwrdd â Phrif Weithredwr a Chadeirydd CWVYS i drafod sut allwn gydweithio'n effeithiol er budd sefydliadau gwirfoddol a bobl ifanc yng Nghymru.

Yn gywir

**Alun Davies AC/AM**
Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes
Minister for Lifelong Learning and Welsh Language